OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 192 (Cy.27)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) (Diwygio) 2010

Gwnaed - - - - *2 Chwefror 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - *3 Chwefror 2010*
Yn dod i rym - - *1 Ebrill 2010*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 16 a 27 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008(**1**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) (Diwygio) 2010 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio

2. Mae Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009(**2**) wedi'u diwygio drwy ychwanegu ar ôl paragraff 3 o Ran 1 o'r Atodlen y canlynol —

> "**4.** Y cod ymddygiad wrth deithio a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan adran 12 o'r Mesur.".

Ieuan Wyn Jones
Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth,
un o Weinidogion Cymru

2 Chwefror 2010

(**1**) 2008 mccc 2. I gael ystyr "rhagnodi" a "rheoliadau" gweler adran 24(1).
(**2**) O.S. 2009/569 (Cy. 53).